Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Cyflwyniad:
COED HYNAFOL

TAFLEN ATHRAWON

Coed Cadw:

Mae Coed Cadw yn fudiad elusennol a sefydlwyd yn 1972 i amddiffyn ein coetiroedd hynafol a chadw a chynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt, ac ar yr un pryd, greu llwybrau i'r cyhoedd i'w defnyddio a'u mwynhau.

Yn ddiweddar, mae Coed Cadw wedi bod yn ceisio cofnodi a sefydlu bas data o'n coed hynafol ar y Rhyngrwyd. Ewch i **http://www.ancient-tree-hunt.org.uk/project** a dewiswch 'Cymraeg'. Mae coed hynafol yn goed sydd wedi bod yn tyfu am gannoedd, os nad miloedd, o flynyddoedd. Mae'r coed hyn wedi bod yn destun chwedlau a storïau drwy'r canrifoedd ac maent yn gofadeiladau hanesyddol o bwys. Mae gan Brydain fwy o'r coed hyn nag unrhyw le arall yn Ewrop.

Bwriad prosiect enfawr Coed Cadw yw ceisio cofnodi cymaint â 100,00 o goed erbyn y flwyddyn 2011. Gyda chymorth y cyhoedd, mudiadau ac ysgolion, mae'n ceisio hybu'r cynllun hwn ar draws y wlad. Mae llawer o'r coed hyn heb eu darganfod eto, gan aros am lygaid barcud rhywun i'w hadnabod.

Cydweithio ag ysgolion

Rhan bwysig o'r prosiect hwn yw creu ymwybyddiaeth drwy'r Rhyngrwyd, teledu, radio, cylchgronau, y wasg a deunyddiau addysgol. Fel rhan o'r neges hon, mae Coed Cadw yn ceisio rhoi cyfleoedd i blant fwynhau, creu a dysgu o'r prosiect hwn. O gael y cyfle a chydag arweiniad ac ysbrydoliaeth, gall bobl ifanc ddod yn ymwybodol o'r cyffro y gall natur, creadigrwydd, gwyddoniaeth, mathemateg a phynciau craidd eraill ei gynnig. Mae Coed Cadw yn dymuno helpu darparu'r ysbrydoliaeth a'r addysg hynny trwy greu cyfres o wersi mewn gwahanol bynciau sy'n dangos yr angen i amddiffyn ein hetifeddiaeth werthfawr o goed hynafol. Cynlluniwyd y gwersi hyn gyda'r cwricwlwm mewn golwg, a'u bwriad yw ychwanegu at ddeunyddiau eraill sy'n cael eu defnyddio a chyd-fynd â nhw.

Cynlluniwyd y gwersi i'w dysgu fel cyflwyniadau byr i Goed Cadw a lle bynnag y bo hynny'n bosibl, maent yn annog defnydd o wefan Yr Helfa Coed Hynafol lle mae adnoddau pellach ar gael fel adnabod dail, mesur coed hynafol, a system fapio i weld coed drwy'r wlad, a'r cyfle i gofnodi coed newydd yn eich ardal chi.

Celf a Dylunio Cyfnod Allweddol 3 – Coed Hynafol

Gellir defnyddio'r gwersi Celf a Dylunio yn unigol neu fel cyfres gan adeiladu ar y wybodaeth a ddysgwyd mewn gwersi blaenorol. Maent hefyd yn addas i ddisgyblion o wahanol lefelau ac oedrannau, gan roi hyblygrwydd i athrawon o safbwynt faint o amser y maent yn ei dreulio yn gweithio gyda disgyblion gwahanol. Mae yna feysydd amlwg lle y gall y gwersi berthnasu â phynciau eraill fel Mathemateg, Saesneg, Cymraeg, Hanes a Gwyddoniaeth. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, anogir athrawon i integreiddio'r pynciau eraill hyn drwy gydweithio â'r pennaeth a llunwyr polisi eraill o fewn yr ysgol. Nodir hefyd gyfleoedd ar gyfer integreiddio sgiliau â'r Cwricwlwm Cymreig.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST